

Cylchlythyr Astudio'r Cyfryngau, Medi 2018

Croeso'n ôl i flwyddyn newydd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau gwyliau'r haf!

Cynnwys:

1. [Deunyddiau ac Adnoddau Cwrs](#)
2. [Cyflwyno Asesiad di-arholiad](#)
3. [DPP](#)
4. [Twitter](#)

DEFNYDDIAU AC ADNODDAU CWRS

Mae tudalennau gwe Astudio'r Cyfryngau CBAC ar gyfer [TGAU](#) ac [UG/Uwch](#) yn cynnwys y fanyleb a denyddiau asesu enghreifftiol. Gellir defnyddio dogfennau allweddol eraill i gefnogi'r cyflwyno ar y ddwy dudalen dan 'Deunyddiau'r Cwrs'.

Mae Canllawiau Addysgu cynhwysfawr ar gael ar gyfer bob cwrs ac maent yn cynnwys amlinelliadau enghreifftiol o'r cwrs, rhestri adnoddau/darllen, dulliau addysgu a llawer mwy.

Gellir dod o hyd i adnoddau i gefnogi cyflwyno pob uned dan 'Adnoddau Digidol' ar bob tudalen we neu ar [Wefan Adnoddau CBAC](#).

Mae gwerslyfr newydd a gyhoeddwyd gan Illuminate Publishing bellach ar gael. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion ar wefan [Illuminate Publishing](#).

Mae'r [wefan ddiogel](#) yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi addysgu, yn cynnwys deunyddiau o ddiwyddiadau DPP blaenorol, cyn bapurau arholiad a chynlluniau marcio a briffiau asesiadau di-arholiad. Byddwch angen enw defnyddiwr a chyfrinair gan eich Swyddog Arholiadau i gyrchu'r rhain.

CYFLWYNO ASESIAID DI-ARHOLIAD

Byddwch yn ymwybodol bod system e-gyflwyno er mwyn cyflwyno gwaith Asesiad di-arholiad ar gyfer y fanyleb newydd. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei darparu yn y DPP ac mae cylchlythyr sy'n cynnwys y wybodaeth angenrheidiol wedi'i anfon at Swyddogion Arholiadau. Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn adran y Swyddog Arholiadau ar wefan CBAC dan [dogfennau cysylltiedig](#).

Bydd taflenni clawr, gan gynnwys y templedi ar gyfer y Datganiad o Nodau ar gyfer Uned 3 ar gael i'w llwytho i lawr yn fuan, naill ai o [dudalen we TGAU Astudio'r Cyfryngau CBAC](#) neu [dudalen we UG/Uwch Astudio'r Cyfryngau](#) dan 'Dogfennau Cysylltiedig'.

Byddwch yn ymwybodol bod fersiwn newydd o'r daflen glawr sydd wedi'i diweddarau fel ei bod yn unol â gofynion GDPR. Y fersiwn hwn sy'n gofyn i ymgeiswyr gasglu llofnodion gan bobl y mae delweddau ohonynt/eu manylion personol yn rhan o'r cynhyrchiad, y dylai ymgeiswyr ei gyflwyno.

DPP

Mae deunyddiau o sesiynau DPP Camau Nesaf 2018 TGAU ac UG/Uwch CBAC ar gael ar y wefan ddiogel o dan Adnoddau > Deunydd Cefnogi Pwnc Penodol gan gynnwys DPP, ac yna drwy ddefnyddio'r hidlyddion i ddod o hyd i ddeunyddiau DPP CBAC ar gyfer TGAU a TAG.

Mae'r deunyddiau hyn yn cynnwys atebion enghreifftiol ymgeiswyr.

Bellach gallwch archebu lle yn nigwyddiadau DPP eleni ar y gwefannau ar gyfer [TGAU](#) a [TAG](#).

TWITTER

Bellach gallwch dderbyn y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am Astudio'r Cyfryngau CBAC/Eduqs drwy ddilyn ein ffrwd Twitter CBAC/Eduqas Astudio'r Cyfryngau [@edugas_media](#).